# CYLCH GORCHWYL
# PANEL ARBENIGOL ACADEMI WALES

a) Academi Wales yw’r ganolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu a thrawsnewid arweinyddiaeth yng Nghymru, a lansiwyd yn 2012 fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i “Sefydlu Canolfan Strategol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Arweinyddiaeth” i Gymru.

b) Sefydliad bach yw Academi Wales, gyda phwrpas arwyddocaol. Gyda’r nod o drawsnewid Cymru drwy ragoriaeth mewn arweinyddiaeth, mae’n darparu portffolio amrywiol o ddosbarthiadau meistr, rhaglenni, ac ymgynghoriaeth i arweinwyr uchaf ein gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag adeiladu’r arfaeth o arweinwyr y dyfodol yng Nghymru.

c) Yn sefydliad gweledigaethol a blaengar, gydag ymchwil ac arloesedd blaengar a rhwydweithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol cryf, mae Academi Wales mewn sefyllfa unigryw i gydweithio ledled Cymru a thu hwnt i ddatblygu a darparu datrysiadau sy’n hanfodol i arweinwyr sefydliadau a gwasanaethau yn eu teithiau arwain a thrawsnewid.

d) Mae Academi Wales yn ceisio adeiladu dyfodol i Gymru lle mae arweinyddiaeth ein gwasanaethau cyhoeddus yn weledigaethol, yn gydweithredol, gyda'r gorau yn y byd ac yn llwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau ym mywydau pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae Academi Wales yn darparu’r amgylchedd i arweinwyr gydweithio i ddatblygu eu sgiliau a’u galluoedd ymhellach i fod y gorau y gallant fod, ac i ysbrydoli, ymgysylltu a grymuso unigolion i ddarparu gwasanaethau o’r ansawdd uchaf i bobl Cymru. Mae ymroddiad a rhagoriaeth y gweithlu arweinyddiaeth presennol yn allweddol i drawsnewid er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

## PANEL ARBENIGOL ACADEMI WALES

a) Mae’r Panel Arbenigol yn dod â grŵp o arbenigwyr ynghyd sy’n barod i ddefnyddio eu harbenigedd a’u profiad i roi cyngor ar heriau a chyfleoedd arweinyddiaeth allweddol yng Nghymru. Bydd aelodau'r panel yn cynrychioli eu sector, ond hefyd yn darparu eu profiad proffesiynol a'u barn eu hunain. Bydd

eu cyngor wedyn yn cynorthwyo Academi Wales i hwyluso datblygiad sgiliau a galluoedd arwain sy'n dod i'r amlwg, yn seiliedig ar egwyddorion cydweithio a phartneriaeth.

b) Mae Panel Arbenigol Academi Wales yn adeiladu ar sylfaen gref o bartneriaethau rhanddeiliaid presennol, a bydd aelodaeth y Panel hwn yn sicrhau y gall Academi Wales barhau i ysgogi cynnydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a gweledigaeth y Prif Weinidog o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru i alluogi dull cydgysylltiedig o gyflawni gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

c) Gallwn gyflawni pethau gwych yng Nghymru, ond dim ond os byddwn yn gweithio gyda’n gilydd ar draws ffiniau, gan ddefnyddio’r arbenigedd a’r adnoddau rydym yn eu rhannu, a chynaeafu darbodion maint Mae'n bwysig adeiladu partneriaethau cryf a bywiog rhwng sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a'r Academi ei hun.

## AELODAETH

a) Mae'r Panel Arbenigol yn cynnwys aelodau craidd ac ‘ad hoc’. Gellir gweld rhestr o aelodau craidd presennol ein Panel Arbenigol yma.

b) Bydd pob aelod craidd yn dynodi dirprwy i fynychu ar eu rhan os a phan fo angen. Os canfyddir bwlch sy'n gofyn am benodi aelod newydd, bydd Cyfarwyddwr Academi Wales yn hysbysu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a fydd yn cymeradwyo'r penodiad ac yn ysgrifennu at yr aelod newydd. Gall y Panel gael hyd at 15 aelod craidd

c) Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant o ran aelodau ein panel.

### *Aelodau Ad-Hoc*

Bydd pob cyfarfod o’r Panel Arbenigol yn cynnwys “archwiliad dwfn” i bwnc penodol, y bydd y Panel yn cytuno arno. Os bydd y Panel yn cytuno bod angen arbenigedd ychwanegol, safbwyntiau, profiad byw neu gynrychiolaeth sectoraidd/daearyddol ar gyfer dadl benodol, gellir gwahodd aelodau ad-hoc i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth.

### *Cworwm*

Ystyrir bod gan y Panel gworwm os bydd o leiaf 8 aelod craidd (neu eu dirprwyon) yn bresennol.

## CYFRIFOLDEBAU

Bydd aelodau Panel Arbenigol Academi Wales yn ychwanegu (ac yn sicrhau) gwerth drwy:

- Gefnogi cyfeiriad strategol Academi Wales drwy ddarparu cyngor ar flaenoriaethau sectoraidd a galluogi cysylltiad â rhwydweithiau lleol.
- Trafod meddwl arloesol a syniadau creadigol ar gyfer atebion posibl i faterion arweinyddiaeth blaenoriaeth wrth iddynt godi ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Hyrwyddo ymgysylltiad y gwasanaeth cyhoeddus ehangach â dulliau a gweithgareddau Academi Wales.
- Bod yn ymwybodol o wybodaeth gwerthuso ac enillion ar fuddsoddiad fel llysgenhadon datblygu arweinyddiaeth effeithiol.
- Helpu i arwain y gweithgarwch ymchwil a datblygu a wneir drwy Academi Wales i sicrhau sganio’r gorwel â ffocws a meddwl am y dyfodol.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymgysylltu’n weithredol ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini o grwpiau gwarchodedig.

## YMDDYGIAD

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Panel ddilyn y “Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus” a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

a) Rhaid i aelodau’r panel sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro yn digwydd, neu y gellid yn rhesymol amgyffred ei fod yn digwydd, rhwng eu dyletswyddau cyhoeddus a’u buddiannau preifat – ariannol neu fel arall.

b) Mae’n rhaid i aelodau’r panel ddatgan yn gyhoeddus unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro â’u dyletswyddau cyhoeddus, neu y gellir eu gweld yn gwrthdaro â’u dyletswyddau cyhoeddus. Yn gyffredinol, dylid datgan yr holl fuddiannau ariannol.

c) Gallai gwybodaeth am wrthdaro buddiannau posibl gael ei datgelu i’r cyhoedd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy dderbyn y penodiad hwn mae aelodau'r panel yn derbyn y gallai rhywfaint, neu'r cyfan o'r wybodaeth hon gael ei datgelu.

## GWEITHGAREDD GWLEIDYDDOL

a) Dylai aelodau'r panel fod yn ddiduedd yn wleidyddol, a chael eu gweld yn ddiduedd. Ni ddylent feddu ar swydd gyflogedig mewn plaid wleidyddol na dal rôl arbennig o sensitif neu broffil uchel mewn plaid wleidyddol. Dylent ymatal rhag pob gweithgaredd gwleidyddol dadleuol a chydymffurfio â'r egwyddorion a

nodir yn rheolau Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb mewn Cynadleddau Pleidiau ac ar ymddygiad yn ystod y cyfnod cyn etholiadau a refferenda boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n Ewropeaidd.

b) Ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y panel, ni ddylai aelodau wneud datganiadau gwleidyddol nac ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol arall.

## CYFNOD

a) Bydd Aelodau'r Panel Craidd yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd heb i unrhyw unigolyn wasanaethu am fwy na chwe blynedd ar y Panel, a fydd yn cael ei adnewyddu am dymor pellach ar argymhelliad y Cadeirydd. Nid oes unrhyw ragdybiaeth awtomatig o ailbenodi ac mae rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu am fwy na dau dymor neu wasanaethu am fwy na chwe blynedd.
b) Penodir Cadeirydd y Panel am gyfnod o dair blynedd, y gellir ei adnewyddu am dymor pellach ar argymhelliad y Cyfarwyddwr, Academi Wales. Mae rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu am fwy nag un tymor fel Cadeirydd.
c) Mewn amgylchiadau eithriadol ar argymhelliad Cyfarwyddwr Academi Wales, gellir ystyried bod aelod o'r panel sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn gwasanaethu fel Cadeirydd am hyd at un tymor.
d) Bydd y broses ar gyfer penodi Cadeirydd yn cael ei goruchwylio gan Gyfarwyddwr Academi Wales, a phenderfynir ar yr union broses yn ôl yr angen, gan gynnwys enwebiadau a datganiadau o ddiddordeb. Bydd Cyfarwyddwr Academi Wales yn hysbysu'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a fydd yn cymeradwyo'r penodiad ac yn ysgrifennu at y Cadeirydd newydd.

## TÂL

Ni chaiff aelodau eu talu am eu hymrwymiad i'r rôl hon, a dylai sefydliad cyflogwyr yr aelod dalu am wariant teithio a chynhaliaeth.

## MEWNBWN GWEINIDOGOL

Bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn croesawu aelodau craidd newydd y panel yn ffurfiol drwy lythyr. Bydd y Gweinidog yn mynychu'r Panel Arbenigol unwaith y flwyddyn i roi cymorth a mewnbwn i'r agenda bwysig hon.

## YMARFEROLDEB

a) Amlder: Bydd Panel Arbenigwyr Academi Wales yn cyfarfod tua bob 8-12 wythnos am ryw ddwy i bedair awr, gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw.

b) Lleoliad: bydd lleoliad y cyfarfod nesaf yn cael ei benderfynu ym mhob cyfarfod o'r Panel Arbenigol.

c) Cofnodion: bydd camau gweithredu allweddol yn cael eu cofnodi a'u rhannu ag aelodau'r Panel. Ni chymerir nodiadau gair am air.